

Gwaith Haearn Blaenafon

Y bythynnod a siop y cwmni



Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew, Cefn Coed
Parc Nantgarw
Cefn Coed, Caerdydd CF15 7QQ



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Stack Square

Mae rhai o'r bythynnod yn Stack Square wedi cael eu dodrefnu ar gyfer rhaglen BBC Cymru, *Coal House*, a dangoswyd gyntaf ym mis Hydref 2007.



Engine Row

Mae dau o'r bythynnod yn Engine Row wedi cael eu dodrefnu gyda nwyddau cartref gwreiddiol a chopïau ohonynt fel cartrefi teuluoedd gweithiol. Ar ben y rhes o fythynnod mae siop y cwmni, sydd wedi cael ei hail-greu fel y byddai wedi edrych o bosibl yn 1840. Yn y llyfryn hwn, mae dylunydd y prosiect, Charles Kightly, yn disgrifio'r addurniadau a'r celfi. Rydym yn ddiolchgar i Amgueddfa Sir Faesyfed, Llandrindod a Llety'r Barnwr, Llanandras am roi rhai o'r eitemau gwreiddiol.



Rhif 1, Engine Row

Mae wedi ei ddodrefnu fel y byddai wedi ymddangos o bosibl pan oedd bron yn newydd yn 1790. Mae wedi cael ei ail-greu fel cartref gweithiwr haearn profiadol o'r gwaith haearn sefydledig yn Ironbridge, Swydd Amwythig, sydd wedi cael ei ddenu i Flaenafon gan y tai cymharol dda hyn am y cyfnod. Dychmygir bod gan y deiliad wraig a baban bach.

Efallai y byddai wedi dod â'r gadair freichiau felen sy'n gopi o gadair Swydd Amwythig' (arddull Colunwy), y gwely sy'n gopi o'r math o wely Swydd Amwythig a oedd yn nodweddiadol o'r gororau a chopi o lun o'r Bont Haearn o 1781.

Bwriedir i wedd fewnol y brif ystafell gyfleu cartref pobl weddol lewyrchus. Mae ei muriau a'i gwaith coed wedi'u lliwio ag ocr coch (a ddefnyddiwyd tan yn ddiweddar i farcio defaid) wedi'i gymysgu â gwyngalch. Mae addurniadau ocr coch wedi goroesi mewn ychydig o dai gwledig yng Nghymru.

Mae'r teulu ar fin cael pryd mawr o goes o gig dafad Cymreig wedi'i berwi (wedi'i modelu ar ddarn o gig dafad nid cig oen o Sir Faesyfed), ynghyd â jwg o saws caprau ac enllyn o ffenigl y môr. Mae'r planhigyn hwn yn tyfu'n wyllt ar forfeydd heli, ac roedd yn boblogaidd fel llysieuyn ledled Cymru ac mewn rhannau eraill o Brydain: gan ei fod yn hallt yn naturiol, roedd yn cadw'n dda ac roedd yn cael ei ddefnyddio mewn ardaloedd mewndirol yn ogystal ag

mewn ardaloedd glan y môr. Mae wedi cael ei goginio ar ffwrn â llawer o gyfarpar arni (sef ffwrn wreiddiol y safle, ond sydd wedi cael ei hadnewyddu'n helaeth) gyda rhesel, clicied dannedd i badellau a sosbenni efydd.

Mae'r cyfarpar bwyta a arddangosir yn cynnwys platiau o biwter, jwg o ledr du â leinin pyg, lliain bwrdd a chadachau, nifer fach o wydrau yfed rhad ac amryw lestri wedi'u copio yn seiliedig ar yr enghreifftiau o'r crochendai yn Ewenni a Bwcle, a oedd yn cael eu cynhyrchu ar raddfa fawr a'u defnyddio ledled Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Ceir hefyd lestri addurniadol ar y simnai, y silffoedd a'r ddreser wedi'i phaentio'n wyrdd.

Mae rhai o'r celfi, gan gynnwys cadair pentan Colunwy a'r ddreser wedi'u paentio, fel yr oedd bron bob dodrefn pinwydd a choed meddal bryd hynny. Mae matiau brwyn ar y llawr, a llenni a defnyddiau eraill mewn brethyn gwlan gwehyddiad saethben trwchus sy'n seiliedig ar frethyn gwreiddiol o 1780. Mae'r brethyn wedi'i ail-greu wedi cael ei wehyddu â llaw ac wedi'i liwio â lliwur llysiâu. Goleuir y tŷ gan ganhwyllau: cŵyr melyn ar gyfer achlysuron pwysig a gwêr gwyn rhatach (bloneg defaid) i'w ddefnyddio bob dydd.

Arddangosir offer gwaith y deiliad hefyd, gan gynnwys ysgrepan ar gyfer bwyd, fflasg ddŵr ledr â leinin pyg, costrel ledr ar gyfer cwrw neu seidr, llusern dun â phaneli corn a chan te a wnaed o dunplat.

Mae'r ystafell wely yn cynnwys copi o wely pedwar postyn paentiedig gyda llenni rhwng y pyst i gadw'r drafft



allan: mae hwn yn fath o wely o ddiwedd y 18fed ganrif a oedd yn nodweddiadol o ranbarth Swydd Amwythig/ Sir Drefaldwyn. Ar y gwely mae matres â gorchudd lliain wedi'i gynnal â llinynnau, ac arno gynfasau lliain plaen da, casiau gobennydd lliain plaen, blancedi gwyn da a gorchudd clytwaith ymarferol lliwgar iawn a wnaed o ddarnau o frethyn.

Ceir hefyd grud siglo gwreiddiol ar ffurf cawell, llusern dun â phaneli corn a Beibl ar y gadair wrth ymyl y gwely, a phot dan y gwely, a chist ddillad blaen fawr wreiddiol a wnaed o goed llwyfen. Arddangosir hefyd wasgod, llodrau ac esgidiau Sul y perchennog (gyda byclau pres) ac esgidiau (â sodlau isel) ei wraig a'i boned haul. Mae lluniau crefyddol wedi eu gosod ar y muriau.

Rhif 2, Engine Row

Mae'n adlewyrchu'r ffaith bod y bythynnod a'u deiliaid wedi colli statws erbyn tua 1841, pan oedd y teulu Macarthy, a ymfudodd o Swydd Corc, yn byw mewn bwthyn yn y rhes (nid hwn o reidrwydd) yn ôl ffurflenni'r cyfrifiad. Roedd y teulu'n cynnwys pedwar oedolyn, pedwar plentyn a baban. Gweithiai'r tad, Timothy, fel llenwr, fel ei ddau fab, Timothy a Thomas (yr honnwyd eu bod yn 14 a 10 mlwydd oed yn 1842, ond a oedd yn iau na hynny, mae'n debyg).

Mae'r wedd fewnol wedi'i harddangos yn llawer llai llewyrchus ac yn fwy llwm na Bwthyn 1. Bwrriedir adlewyrchu'r ffaith bod y tŷ yn orlawn a dangos hefyd



ychydig o'r eitemau rhad wedi'u swp-gynhyrchu a oedd ar gael erbyn hynny.

Mae llawer o'r celfi yn amlwg yn ail-law. Awgrymir cefndir Gwyddelig y deiliaid gan nifer fach o gelfi mewn arddull Wyddelig gan gynnwys cadair gordynnog wreiddiol Sogar o Swydd Mayo a'r ddreser Wyddelig wreiddiol o Swydd Clare, sydd wedi cael ei hail-baentio mewn lliwiau llachar nodweddiadol. Ceir hefyd eitemau sy'n ymwneud â'r ffydd Babyddol.

Addurnir yr ystafell hon â gwyngalch plaen, gydag ocr melyn (sef y lliw rhataf) ar y gwaith coed. Mae copiau o

bapurau newydd Gwyddelig cyfoes wedi'u gosod ar y muriau fel math o bapur wal rhad, arfer a gofnodwyd mewn nifer o'r disgrifiadau o'r 19eg ganrif ac mewn o leiaf un ffotograff cyfoes.

Dangosir y brif ystafell fel petai wedi'i threfnu ar gyfer diwrnod golch. Lle roedd nentydd glân gerllaw, byddai'r golch wedi cael ei wneud yn yr awyr agored fel arfer: ond efallai nad oedd llawer o nentydd glân ger Blaenafon yn 1841. Dangosir yma y golch yn cael ei wneud drwy ddull rhad a hen ffasiwn sef dŵr oer. Byddai'r dillad yn cael eu rhoi mewn basged ddillad yn gyntaf a'u socian â lleisw (a wnaed drwy ddiferu dŵr drwy ludw coed): wedyn câi'r dillad eu glanhau drwy eu curo mewn tybiau gan ddefnyddio batiau golchi ar ystyllod golchi, a 'sebon' a wnaed drwy gymysgu lleisw â bloneg o wêr, er enghraifft bonion canhwyllau. Yn olaf byddai'r dillad yn cael eu rinsio mewn twb arall, a'u hongian i sychu. Ymhlith y dillad a ddangosir yma mae troswisg lliain, crys lliain a throwsus isaf.

Mae gan y ffwrn (unwaith eto ffwrn wreiddiol y safle sydd wedi cael ei hadnewyddu) lawer llai o gyfarpar na'r ffwrn ym Mwthyn 1 a gwneir y rhan fwyaf o'r coginio drwy ferwi bwyd mewn padellau haearn. Yn y pantri ceir y crochenwaith rhataf, gwaith tun, nwyddau o waith cowper (casgenni wedi eu torri) ac eitemau rhad eraill. Arddangosir yn y pantri hefyd gopi o drap llygoden ar ffurf 'garrotte' a sach o datws replica: mae'r rhain wedi'u modelu ar y math glas a elwid yn 'Lumpers' a oedd yn boblogaidd yn Iwerddon cyn y newyn mawr yn Iwerddon a'r malltod tatws

ar ddiwedd y 1840au. Ymhlith y cyfarpar bwyta mae mygiau a phlatiau o grochenwaith, mygiau tun ac eitemau rhad eraill.

Mae sachau'n cael eu defnyddio fel rygiau: goleuir y bwthyn gan ganhwyllau gwêr a chanhwyllau brwyn. Mae'r llenni a defnyddiau eraill wedi'u gwneud o gotwm 'siec Manceinion', y defnydd rhataf a oedd ar gael bryd hynny. Ymhlith yr offer gwaith a arddangosir mae potel ddŵr bren wedi'i phaentio'n goch yn debyg i'r rhai a ddefnyddid yn y fyddin a blaenlythrennau Timothy Macarthy arni, 'ysgrepan' liain ar gyfer bwyd, llusern dun â phaneli corn, a chan te o dun.

Dychmygir bod yr ystafell wely ar y llawr daear yn eiddo i Timothy, ei wraig Mary a'r baban Daniel. Ynddi mae gwely plaen (gyda'i fatres rhad wedi'i gynnal ar estyll yn hytrach na'r llinynnau a oedd gan y gwely cynharach), gyda matres â chwrlid lliain, un cynfas lliain, a chwrlid ymarferol o ddarnau o flancedi a brethyn. O dan y cwrlid mae blanced wreiddiol â siec du a choch wedi'i gwneud o ddau led o frethyn a wnaed ar wÿdd cul wedi'u gwnïo at ei gilydd: mae hon yn garthen draddodiadol Gymreig, sy'n dod o ardal Tregaron yn fwy na thebyg. Ceir hefyd grud gwreiddiol Cymreig â chanopi; a chrud Gwyddelig llai wedi'i baentio'n wyrdd; cist dun ar gyfer dillad; a thoiled 'bwced lludw' gyda chaead. Nid oedd dim glanweithdra yn y bythynnod, ac ni chafodd geudai allanol eu darparu tan yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif.



Ystafell wely'r bechgyn, Timothy a Thomas yw'r ystafell wely gyntaf lan lofft. Nid oes gwelyau, dim ond hen fatres plu a gwely gwellt wedi'i wehyddu ar y llawr, (copi o 'fatres y tlawd' tua 1820 sydd wedi goroesi yn Gressenhall, tloty yn Norfolk). Mae'r dillad gwely yn cynnwys blancedi carpiog a charthen siec fel yr un i lawr y grisiau. Ceir toiled bwced lludw arall, hen flwch i gadw dillad ac eiddo, llusern a matiau a wnaed o sachau.

Yr ail ystafell yw ystafell wely Jeremiah Macarthy, llafurwr, 20 oed yn 1841 a brawd iau deiliaid y tŷ fwy na thebyg; ei wraig Hannah 19 oed; a'u dwy ferch Mary, 5 oed, ac a anwyd felly pan oedd ei mam yn 14, a Hannah 3 oed. Mae'r dodrefn yma yn syml iawn. Gwely Cymreig gwreiddiol yw gwely'r pâr yn dyddio o tua 1840, ac mae ei fatres wedi ei gynnal ar sachau wedi eu hoelio i'r ffrâm. Bocs estyllog yw gwely'r merched, gyda rhwyllwaith o raffau yn cynnal y dillad gwely. Hen ddarnau o flancedi yw'r cwrlidau wedi eu lliwio a'u gwnio gyda'i gilydd. Mae gan y ddwy ferch ddoliau (wedi eu copio o enghreifftiau cyfoes).

Arddangosir dillad gwaith y teulu hefyd, yn seiliedig ar baentiadau yn dyddio o tua 1840 o lafurwyr yn Nowlais a gweithiau haearn eraill. Mae gan Jeremiah 'het gron', crys, gwasgod, llodrau isaf lliain, trowsus, cadach gwddf ac esgidiau. Mae gan Hannah bais, sger t isaf o gotwm caerog lliain streipiog, ffrog, pinaffor bodis â blodau melyn arno, siôl, bonet, esgidiau a sanau. Mae gan y merched foneti haul, peisiau, ffrogiau a phinafforau.



Nwyddau cartref

Crochenwaith ac offer

Cyn dyfodiad plastig a gwydr rhad, roedd offer cartref yn y rhan fwyaf o gartrefi gweithwyr wedi'u gwneud o bren, tun neu fetel arall, neu o grochenwaith gan amlaf.

Mae bron yr holl grochenwaith a arddangosir (gan gynnwys mygiau, platiau, dysglau, jariau storio a'r padellau



crwn llydan a elwid yn 'steens' neu'n 'pancheons' yn gopiau o grochenwaith o Ewenni, ger Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Forgannwg, a Bwcle, Sir y Fflint. Roedd y ddau grochendy diwydiannol mawr hyn yn cyflenwi offer cartref i bob rhan o Gymru a rhannau o Ganolbarth Lloegr drwy gydol y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif. Byddai eu cynnyrch yn cael eu cludo gan geir t, ceffylau pwn, llongau ar hyd yr arfordir, cychod camlas ac (yn ddiweddarach) ar y rheilffyrdd, a byddent yn aml yn cael eu gwerthu mewn ffeiriau neu gan grochenwyr teithiol. Roedd y rhan fwyaf o'u llestri bob dydd yn llestri pridd gwydrog wedi'u lliwio'n ddu, yn llwyd-felyn neu'n goch: cynhyrchai'r ddau grochendy ystod o eitemau ceramig addurnol i'w harddangos hefyd gan gynnwys platiau, fasys a chanhwylbrennau, y gellir gweld copiau ohonynt yn enwedig, ym Mwthyn 1.

Ymhlith yr offer arall mae tybiau o waith cowper a wnaed yn debyg i gaseggi bach, a bwcedi o waith cowper; copiau o eitemau o dunplat a gynhyrchid yng nghyffiniau Llanelli ac Abertawe; ac ychydig o blatiau piwter.

Goleuo

Goleuir yr ystafell gan ganhwylau a chanhwylau brwyn. Ceid dau fath o ganhwylau: roedd y rhai a wneid o gwyr melyn persawrus â phabwyr llin neu gywarch yn rhoi gwell golau, ond roeddent yn gymharol ddrud: dangosir sut y byddent yn cael eu defnyddio ar gyfer 'achlysuron pwysig' yn unig ym Mwthyn 1. Roedd canhwylau gwêr, a wneid fel arfer o floneg gwyn cig defaid gan y deiliaid tŷ eu hunain, yn rhatach o lawer, ond roeddent yn ddrewllyd, yn rhoi golau gwan ac yn torri'n hawdd. Byddai'r ddau fath o ganhwylau yn cael eu cynhyrchu



drwy drochi'r pabwyr yn y defnydd nes bod y canhwyllau yn ddigon trwchus. Byddent yn cael eu gwneud a'u storio mewn parau wedi'u cydgyssylltu â'r pabwyr, fel y dangosir. (Mae canhwyllau modern yn cael eu gwneud o gŵyr paraffin fel arfer, ac nid oeddent ar gael yn y cyfnodau a gynrychiolir).

Roedd canhwyllau brwyn (a ddangosir ym Mwthyn 2 yn unig) hyd yn oed yn rhatach, gan eu bod wedi'u gwneud o goesynnau brwyn wedi'u trochi mewn gwêr. Byddent yn rhoi golau gwan a chrynedig, ac roeddent fel arfer wedi'u dal mewn ategion canhwyllau brwyn haearn, ac roedd yn rhaid eu symud yn aml yn yr ateg wrth iddynt losgi.

Yn y ddau fwthyn dangosir hefyd lusernau tunplat a fyddai'n dal canhwyllau. Mae eu paneli goleuo wedi'u gwneud o stribedi tenau o gorn lled-dryloyw yn hytrach na gwydr a oedd yn ddrutach bryd hynny.

Celfi paentiedig

Yn ystod y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif (ac yn gynharach) roedd y rhan fwyaf o gelfi gwledig (yn enwedig os oeddent

wedi'u gwneud o bren pinwydd neu fath arall o bren meddal) wedi'u diogelu ac wedi'u haddurno drwy eu paentio. Mae'r ffasiwn diweddar o dynnu paent oddi ar hen gelfi pinwydd wedi dinistrio llawer o'r dystiolaeth o'r arfer hwn a fu gynt yn gyffredin iawn. Ymhlith yr hoff liwiau a ddefnyddid roedd gwyrdd, ocr melyn, brown goch a du. Mae'r cwpwrdd wal ym Mwthyn 2 wedi cadw ei liw gwreiddiol, ac mae rhai o'r copiau o gelfi a arddangosir hefyd wedi cael eu paentio.

Roedd lliwiau llachar yn nodwedd benodol ar gelfi gwledig o Iwerddon (fel y ddreser wreiddiol ym Mwthyn 2): mae ein dreser (o Swydd Clare) yn gopi o gynllun lliw gwreiddiol. Mae dreseri o Iwerddon hefyd yn wahanol i lawer o enghreifftiau o ddreseri o Gymru a Lloegr oherwydd eu culni o'i gymharu â'u huchder, a'r defnydd o rodiau yn hytrach na rhychau i gadw platiau yn eu lle.

Defnyddiau

Mae'r defnyddiau gwreiddiol a'r copiau o ddefnyddiau a arddangosir wedi'u gwneud o liain neu wllan yn bennaf. Mae'r copiau o ddefnyddiau gwllan (er enghraifft y llenni a'r gorchudd gwely ym Mwthyn 1) wedi cael eu gwehyddu â llaw ac wedi cael eu lliwio â lliwrau llyisiau yn ôl yr hen arfer: dim ond ar ôl tua 1850 y daeth lliwrau cemegol modern yn boblogaidd.

Mae'r defnyddiau gwreiddiol yn cynnwys y ddwy garthen Gymreig coch a du ym Mwthyn 2. Fel y rhan fwyaf o flancedi cynnar, mae'r rhain wedi cael eu gwnio ar wyddiau cul tua 3 troedfedd (1m) o led: mae dau neu fwy o ledau yn cael eu gwnio at ei gilydd i wneud blancedi lletach. Fwy na thebyg maent yn dod o Sir Gaerfyrddin neu Geredigion.



Siop y cwmni

Mae rhan o Siop Cwmni Blaenafon wedi cael ei hail-greu fel y byddai wedi ymddangos o bosibl tua 1840, mewn rhan o'r siop wreiddiol. Ar y pryd roedd y siop yn defnyddio 'rhes ganol' Stack Square bron yn gyfan gwbl yn ôl pob golwg: ond ar ôl 1843 symudodd y siop allan o'r gwaith haearn i Stryd y Gogledd. Yna addaswyd y rhes ganol yn fythynnod.

Sefydlwyd siop y cwmni gyntaf mae'n debyg yn fuan iawn ar ôl creu'r gwaith haearn tua 1790. Gan fod yr ardal ar y pryd yn rhostir anghyfannedd bron i gyd, roedd siop lle y gallai gweithwyr brynu (yn ôl y cwmni) 'eitemau angenrheidiol bywyd ac yn wir bron pob eitem a ddymunwch' yn hollol hanfodol i'r gymuned newydd. Ond gan nad oedd gan weithwyr unrhyw ddewis arall ond prynu yma, gwnaeth y siop elw sylweddol hefyd i berchnogion y gwaith haearn. Yn ystod y cyfnod 1837–43 amrywiodd ei helw o 12% i 36% o holl elw'r gwaith haearn.

Roedd gan siopau cwmni enw gwael, yn rhannol oherwydd y prisiau uchel ac ansawdd gwael eu nwyddau yn ôl y sôn. Yn ystod y 1830au, canfu arolwg o siopau cwmni Sir Fynwy fod eu prisiau hyd at 50% yn uwch nag yr oeddent mewn siopau cyffredin. Roedd y system a weithredwyd ganddynt hyd yn oed yn fwy amhoblogaidd. Talwyd gweithwyr Blaenafon mewn arian parod mewn ôl-daliadau, bob mis neu'n hwy na hynny. Felly fe'u gorfodwyd yn aml i brynu bwyd ac eitemau angenrheidiol ar goel, gan ddefnyddio tocynnau a lofnodwyd gan asiantau'r



Tocynnau Blaenafon, a elwid yn 'dibs' (Amgueddfa Genedlaethol Cymru).

cwmni fel 'arian cyfred' y siop. Pan gyrhaeddai eu tâl o'r diwedd, didynnwyd y taliadau ar gyfer yr eitemau hyn a brynwyd o'r siop, gan adael fawr ddim arian. Felly roedd llawer o bobl mewn dyled i siop y cwmni yn barhaol.

Gelwid y system hon o dalu gweithwyr mewn nwyddau wedi eu gorbrisio yn y bôn yn 'trwco', sef 'cyfnewid'. Byddai rhai yn cellwair yn chwerau bod 'truck shops' — fel y gelwid siopau cwmni yn aml yn Saesneg — yn rhoi crud ac arch i ddyn, ac yna'n gwneud iddo fwyta gwellt ei wely rhwng y ddau. Achosodd y system hon lawer o ddrwgdeimlad, gan arwain at Wrthryfel Merthyr yn 1831.

Fodd bynnag, mae cofnodion siop Blaenafon rhwng 1837 a 1843, yn creu darlun ffafriol o'r siop o'i chymharu ag eraill ar y pryd. Nid oedd canran yr elw o werthu byth yn fwy na 12%, gan ostwng i 6% ym mlynnyddoedd y dirwasgiad rhwng 1841–42. Yn 1842 cofnodwyd colledion sylweddol, o ganlyniad i weithwyr a ddiswyddwyd yn gadael heb dalu eu

dyledion yn y siop. Ni thalwyd gweithwyr Blaenafon ychwaith, fel mewn manau eraill, mewn tocynnau na ellid ond eu defnyddio yn siop y cwmni. Yn ôl pob golwg, taliadau am oramser neu daliadau bonws oedd tocynnau siop Blaenafon, a elwid yn lleol yn 'dibs'. Maent yn dyddio o tua 1870 ac roedd gweithwyr yn eu cyfnewid am gwrw yn y dafarn drws nesaf i siop Stryd y Gogledd.

Ni wyddom yn union beth oedd siop Blaenafon yn ei werthu yn 1840, er ei bod bron yn sicr yn gwerthu amrywiaeth gynhwysfawr o fwydydd cyffredin (fel y siop ddiweddarach yn Stryd y Gogledd). Roedd hefyd yn gwerthu esgidiau ac esgidiau mawr, dillad, brethyn ac amrywiaeth o nwyddau cartref ac offer gwaith.

Mae'r cynhyrchion a arddangosir yn ein siop oll yn gopiau modern wedi eu seilio'n agos ar gynhyrchion gwreiddiol. Maent yn cynnwys platiau tun rhad, mygiau, llusernau kannwyll gyda phaneli corn a photeli dŵr yn ogystal â'r costrelau lledr drutach â leinin pyg a fflasgiau a ddefnyddiwyd i gario diod wrth weithio ar y safle. Mae bowlenni a llwyau rhad wedi eu gwneud o gorn, a dau fath o gannwyll, canhwylau gwêr rhad (a gostiai tua 6d [3c] y pwys [0.45kg] yn 1840) a'r canhwylau cŵyr melyn drutach o lawer (2/6d [12.5c] y pwys). Ceir dewis helaeth iawn hefyd o'r crochenwaith a gynhyrchwyd ar raddfa fawr yn Ewenni a Bwcle ac a ddefnyddiwyd at bron bob diben posibl yn y cartref: jygiau, jariau storio, crochanau, padellau, dysglau, cwpanau a hyd yn oed sawl cadw-mi-gei.

Mae pibau clai (y gellir canfod llawer ohonynt o hyd o



Llyfr cyfrifon o'r Farteg, ger Blaenafon, a ddelir yn Archifau Gwent.

amgylch y safle) a thybaco hefyd ar werth: roedd llawer o fenywod yn ogystal â dynion yn smygu pibau. Mae'r bwydydd a atgynhyrchwyd yn cynnwys sawl math o fara (tua 2d [1c] am dorth fawr yn 1840); bacwn, y cig cyffredin a fwytawyd bob dydd (9d [4.5c] y pwys yn ôl y sôn mewn siopau cwmni yn y 1830au, ond dim ond 6d [3c] y pwys mewn siopau cyffredin); yr ham drutach; a chaws (tua'r un pris â bacwn, hefyd yn costio 50% yn fwy mewn siopau

cwmni). Ceir tatws, llai o faint a mwy lympiog na thatws heddiw, ond yn fendith i deuluoedd tlawd am eu bod ond yn costio 2d [1c] am 4 pwys [1.8kgs]: ynghyd â bwydydd y gellid eu storio'n hawdd fel winwns, pys sych a rhesins. Roedd te a oedd ychydig yn ddrutach ond a ystyriwyd yn eitem angenrheidiol, yn 5 swllt [25c] y pwys, ac roedd siwgr, a gyflenwyd mewn conau soled ac a dorrwyd yn ôl yr angen gyda gefelliau siwgr, yn 9d [4.5c] y pwys. Yfwyd cwrw gan bron pawb, ac roedd peint o'r cwrw cryfaf yn costio 2s 6d [1.25c].

I ni heddiw, mae'r prisiau hyn yn ymddangos yn syfrdanol o isel, ond dylid eu hystyried yng nghyd-destun cyflogau yn ne Cymru tua 1840. Gallai glöwr ennill ychydig dros £1 yr wythnos, a gallai gweithiwr ffwrnais profiadol ennill £1, 10 swllt (£1.50) efallai, ac roedd y merched a'r menywod a weithiai ddeuddeg awr y dydd, chwe diwrnod yr wythnos, i dorri mwyn yn nheras uchaf ffwrnais Blaenafon, ond yn ennill 6 i 7 swllt (30–35c) yr wythnos yn 1865. Roedd bwyd a diod yn cyfrif am tua 67% o incwm teulu yn 1840, o gymharu â thua 15% yn 2008.

Mae'r ffitiadau a'r silffoedd yn ein siop wedi eu hachub o siopau'r 19eg ganrif, ac mae'r pwysau, y cloriannau a chyfarpar arall hefyd yn dod o'r 19eg ganrif yn bennaf. Daeth y grât o dŷ meist'r haearn ger Llantrisant, a gwnaed y cloc mawr gwreiddiol yn Ystradgynlais. Yn y lluniau gwelir y Frenhines Fictoria (a deyrnasodd o 1837) yn ferch ifanc a Thomas Hill I (1736–1824), sylfaenydd Gwaith Haearn Blaenafon.